



Croeso: beginners' Welsh

19th century Welshman, John Williams

The piece you are going to hear is about Dr John Williams. Here are a few words and phrases from the report which may be new to you: **prentisio** to *apprentice*, **gofalu amdany**n **nhw** to *look after them*; **dros Gymru** for *Wales*; **gan gynnwys** *including*; **llawysgrifau** *manuscripts*; **cenedlaethol** *national*; **ar y pryd** *at the time*; **gaeth e ei gladdu** *he was buried*; **cerflun** *statue*.

See if you can pick out information about

- where Dr Williams studied
- his connection with the royal family
- his other interest, apart from medicine
- the institution in Aberystwyth with which he is associated
- where his statue can be seen

You may find it useful to replay the section you have just heard and to note down some of the points you will be listening out for. You may want to listen several times, picking out a little more information each time.

Gaeth John Williams ei eni yng Ngwynfe, Sir Gaerfyrddin, ym mis Tachwedd 1840. Gweinidog a ffermwr oedd ei dad, ac aeth e i ysgol y pentre ac yna i astudio mewn colegau yn Abertawe a Glasgow. Wedyn, gaeth e ei brentisio yn feddyg a daeth yn feddyg enwog a chyfoethog yn Llundain. Pan gaeth plant y teulu brenhinol eu geni yn Llundain, fe oedd y meddyg oedd yn gofalu amdany nhw.

Roedd John Williams hefyd yn ceisio gwneud pethau dros Gymru, gan gynnwys gwella iechyd pobl. Roedd diddordeb gyda fe hefyd yn hanes Cymru ac yn arbennig mewn hen lyfrau a llawysgrifau. Casglodd e filoedd ohonyn nhw, ac roedd ei llyfrgell yn enfawr. Doedd dim llyfrgell genedlaethol yng Nghymru ar y pryd, ond dywedodd e – ‘Os caiff y llyfrgell ei chodi yn Aberystwyth, gwna i roi fy llyfrau iddi hi’. Digwyddodd hynny, a dyna pam mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, dim yng Nghaerdydd! Rhoddodd e lawer o arian i'r llyfrgell hefyd. Buodd e farw ym 1926 a gaeth e ei gladdu yn Aberystwyth.

Os ewch chi i'r Llyfrgell Genedlaethol, mae cerflun o John Williams yn yr ystafell ddarllen. Gallwch chi weld rhai o'r llawysgrifau roddodd e hefyd, gan gynnwys rhai

pwysig iawn. Mae golygfa wych o'r Llyfrgell. Dych chi'n gallu gweld tre Aberystwyth a'r môr. Mae arddangosfa ddiddorol yna yn aml iawn, ac mae pawb sy'n gweithio yno yn siarad Cymraeg. Mae'r caffin lle da iawn am baned a phryd o fwyd.

Go back and listen again to the recording now if you wish, before we give you the answers to the five questions.

How did you get on? If you managed to pick out most of the five things we asked you to listen for, you did really well.

Here is the information you were asked for:

- Dr Williams studied in Swansea and Glasgow
- When royal children were born in London, he looked after them
- He was interested in Welsh history
- He is associated with the National Library, to which he donated books, manuscripts and money
- His statue is in the reading room of the National Library